



CYNGOR • TREF  
**LLANDUDNO**  
TOWN • COUNCIL

### **Polisi Grantiau**

Mae gan y Cyngor Tref bwerau statudol i ryddhau cyllid at ddefnydd sefydliadau lleol ar gyfer lles cyffredinol y dref a'i thrigolion (LGA 1972 s137, s145). Mae'r polisi hwn yn gosod allan gweithdrefnau'r Cyngor Tref ar gyfer cynnig grant ac i ffurfioli'r broses ymgeisio er mwyn sicrhau mynediad, didwylledd a thegwch.

Gellir dyfarnu grantiau i sefydliadau gwirodol ac elusennol sy'n darparu gwasanaeth i, neu er lles, y gymuned gyfan oddifewn i gylch Llandudno, neu grŵp neilltuol o drigolion. Rhaid i'r holl sefydliadau fod o natur anfasnachol. Mae'r Cyngor Tref yn rhoi grantiau amrywiol, gan ystyried pob cais ar ei haeddiant.

Yn ogystal â grantiau i sefydliadau sy eisoes yn bodoli, gall y Cyngor Tref hefyd ddarparu grantiau cychwynnol i sefydliadau newydd.

Yn arferol, fe ystyrir grantiau'n flynyddol ond efallai y rhoddir ystyriaeth i geisiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol/argyfyngus.

Noder mai cyllid cyfyngedig sy gan y Cyngor Tref i ddyfarnu grantiau ac mae'r nifer o geisiadau pob blwyddyn bob amser yn fwy na'r cyllid sy ar gael. Mae dyfarnu'r grantiau a'r swm o gyllid a ddyrennir ar ddoethineb y Cyngor Tref. Yn 2016, roedd cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd gan y Cyngor Tref dros £84,000.

#### **Pwy sy'n cael ceisio:**

Mae'r canlynol yn cael ceisio am gymorth grant:

- Clwb/cymdeithas/elusen wedi'i selio yn Llandudno yn gwasanaethu adran benodol o'r gymuned neu'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Rhaid i bob un bod a natur anfasnachol.
- Trigolion Llandudno yn ymgeisio am gymorth grant tuag at brosiect/digwyddiad, a fydd o fudd i'r gymuned leol.
- Rhoddir ystyriaeth hefyd i geisiadau gan:
  - Sefydliad/grŵp lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n gwasanaethu anghenion y Dref (h.y. wardiau Craig y Don, Gogarth, Mostyn, Penrhyn, Tudno).
  - Cangen leol o sefydliad/grŵp rhanbarthol neu genedlaethol sy'n gwasanaethu anghenion trigolion Llandudno.

#### **I fod yn gymwys ar gyfer grant:**

Rhaid i sefydliad:

- Fod wedi'i sefydlu ar gyfer pwrpasau elusennol, llesionol, cymdeithasol, diwylliannol, hamddenol neu ddyngarol ac i fod yn anfasnachol.

- Fod yn berchen cyfansoddiad (neu set o reolau) sy'n diffinio'i nodau, amcanion a'i gweithdrefnau gweithredol.
- Allu darparu copi o'i chyfrifon archwiliedig diweddaraf a'i chyfriflenni banc diweddaraf.
- Bod ag angen ariannol clir.
- Bod â briff ynglŷn â sut mae'r arian i'w wario er lles cymuned Llandudno.

### **Yr hyn na chaiff ei ariannu fel arfer:**

Mae'r Cyngor yn ymddiheuro na all, yn arferol, ystyried ceisiadau gan y canlynol:

- 1.1 'Cyllidwyr esgynnol' h.y. grwpiau lleol sy â'r holl arian a godir ganddyn nhw'n mynd at bencadlys rhanbarthol neu genedlaethol i'w ail-ddosbarthu a heb gael ei wario'n lleol.
- 1.2 Ysgolion a ariennir gan AALL ac ysgolion preifat.

### **Sefydliadau newydd:**

Os ydi'r ymgeisydd yn sefydliad newydd, neu ar fin ffurfio, a heb fod â chyfrifon archwiliedig/cyfansoddiad/unrhyw wybodaeth berthnasol arall, yna dylid cyflwyno copi o'r gyfriflen banc ddiweddaraf neu ddogfen o gefnogaeth. Bydd angen i'r Cyngor wybod pan bod y grŵp yn ffurfio, yr angen am y grŵp, a sut y bydd yn parhau. Bydd angen i'r Cyngor hefyd gael ei fodloni fod y prosiect y ceisir cymorth grant iddo yn cael ei gyflawni ac fe all osod amodau neu oedi'r dyfarniad hyd nes cwblhau'r prosiect.

### **Sut i wneud cais:**

1. Ystyrir ceisiadau gan sefydliadau gwirfoddol oddifewn i'r ardaloedd wardiau'r dref, a hefyd unrhyw sefydliadau a leolir tu allan i'r dref.
2. Dylid gwneud y ceisiadau ar ffurflen gais y Cyngor Tref (ar gael o Swyddfa/Gwefan y Cyngor Tref), ynghyd â llythyr eglurhaol ar benllythyr, y cyfrifon archwiliedig diweddaraf sy ar gael, mantolen/cyfriflen banc a chopi o'r cyfansoddiad. Fe groesewir unrhyw ddogfennaeth gefnogol, o fewn rheswm.
3. Rhaid i geisiadau gael eu derbyn erbyn dydd Gwener olaf ym mis Hydref, pob blwyddyn, ar gyfer dyfarnu grantiau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr oni bai mewn amgylchiadau o argyfwng/eithriadol.
4. Rhaid i ymgeiswyr nodi unrhyw a phob cais arall am gyllid a wnaed ac/neu a dderbyniwyd, gan gynnwys gan Gynghorau Tref ac awdurdodau lleol eraill.
5. Mae'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i sicrhau bod eu cais wedi'i dderbyn gan Glerc y Cyngor yng Nghyngor Tref Llandudno.
6. Bydd y Cyngor Tref yn cydnabod pob cais cywir a dderbynnir. Caiff unrhyw geisiadau a fernir yn anghyflawn eu dychwelyd at yr anfonwr.
7. Mae'r Cyngor Tref yn cadw'r hawl i wneud cais am unrhyw wybodaeth ychwanegol all fod o gymorth i benderfynu ar y cais.

### **Sut y gwneir penderfyniadau gan y Cyngor:**

1. Bydd yr Is-bwyllgor Grantiau'n ystyried grantiau'n flynyddol, ganol fis Tachwedd. Efallai na fydd y Cyngor Tref yn medru ariannu'r holl brosiectau gan y gall fod mwy o geisiadau nag sy o arian ar gael. Caiff pob cais ystyriaeth gofalus, ond efallai na dderbyniwch gyfanswm y grant a geisir gennych.
2. Caiff y cais, yn gyffredinol, ei asesu ar rai neu bob un o'r meini prawf canlynol: cymhwysedd cyffredinol; effaith ar angen lleol; ymwneud â'r gymuned; cefnogaeth

addysg/cymuned; gwerth am arian; effaith amgylcheddol; dichonolrwydd; effeithiolrwydd tebygol.

3. Caiff argymhellion gan yr Is-bwyllgor Grantiau eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol ar gyfer ystyriaeth ac yna fe roddir y gymeradwyaeth derfynol.
4. Wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol, sy â phwerau dirprwyedig, fe hysbysir yr ymgeiswyr o ddeiliant eu cais.
5. Mae penderfyniad y Cyngor Tref yn derfynol ac ni fydd y Cyngor yn trafod asesiad y grant.
6. Fel arfer, fe anfonir sieciau grantiau allan erbyn diwedd mis Mehefin pob blwyddyn.
7. Bydd dyfarniadau grant dros £2,500 yn cael eu talu mewn dau randaliad.

### **Amodau'r grant:**

Pe na chaiff unrhyw un o'r amodau hyn eu cyflawni, gall hyn olygu tynnu'r dyfarniad yn ôl, ad-dalu'r grant a cheisiadau am grant yn y dyfodol yn cael eu gwrthod.

1. Does dim ond modd defnyddio'r grant am unrhyw beth ond y pwrpas a nodwyd yn y cais ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill yr holl/neu ran o'r grant na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer pwrpas penodol y cais.
2. Efallai y bydd gofyn i rai ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ac/neu unrhyw dystiolaeth arall ynglŷn â sut gafodd yr arian ei ddefnyddio.
3. Mae angen caniatâd y Cyngor ymlaen llaw os oes angen unrhyw newid pwrpas i'r grant.
4. Os, am unrhyw reswm, fod y sefydliad yn terfynu yn ystod cyfnod y grant, fe all y bydd y Cyngor yn gofyn am yr oll/neu ran o'r arian i gael ei dalu'n ôl.
5. Rhaid defnyddio'r grantiau o fewn deuddeg mis.
6. Ni ddylid dosbarthu grantiau i unrhyw sefydliad arall.
7. Mae sefydliadau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a statudol.
8. Rhaid i'r ymgeiswyr gydnabod, lle bo'n bosib, gefnogaeth ariannol y Cyngor Tref ar lenyddiaeth hyrwyddol. Fe ofynnir i sefydliadau sy'n derbyn dyfarniad dros £2,500 i arddangos tystysgrif wedi'i lamineiddio, a ddarperir gan y Cyngor Tref, yn cydnabod cefnogaeth ariannol y Cyngor Tref.
9. Dim ond un cais mae sefydliad yn cael cyflwyno pob blwyddyn.